

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol My Dentist,  
Trefyclo, Bwrdd Iechyd Addysgu  
Powys

Dyddiad yr arolygiad: 13 Rhagfyr 2023

Dyddiad cyhoeddi: 14 Mawrth 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	8
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	16
4.	Y camau nesaf .....	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	20
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	24

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol My Dentist, Trefyclo, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 13 Rhagfyr 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 41 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Deintyddol MyDentist, Trefyclo yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Gwelsom y staff yn trin cleifion mewn ffordd gwrtais, gyfeillgar a phroffesiynol wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'dda' neu'n 'dda iawn'.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ystyried opsiynau i wella preifatrwydd y cleifion yn ardal y dderbynfa
- Adolygu'r weithdrefn gwyno ac ychwanegu manylion ati.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amgylchedd y practis yn olau, yn lân ac mewn cyflwr da
- Roedd mesurau ar waith i sicrhau bod y practis yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y practis mewn cyflwr da ac yn drefnus, bod y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben. Gwelsom dystiolaeth fod buddsoddiadau a gwelliannau parhaus yn cael eu gwneud.

Gwelsom fod y staff yn dilyn gweithdrefnau clir er mwyn sicrhau bod offer deintyddol yn cael ei ddihalogi, bod cyfarpar meddygol yn cael ei wirio a'i brofi'n rheolaidd a bod gweithdrefnau glanhau yn cael eu dilyn.

Roedd pob ardal gyhoeddus yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac nid oedd peryglon amlwg.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adleoli'r prosesydd pelydr-X deintyddol

- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o weithdrefnau diogelu cenedlaethol Cymru Gyfan.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion
- Roedd archwiliadau yn cael eu cynnal i fonitro a gwella'r gwasanaeth a ddarperir
- Gwelwyd bod y cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Gwnaethom nodi bod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau rheoli clir. Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am ddau bractis a gwelwyd ei fod yn ymrwymedig i ddarparu safon uchel o ofal.

Gwelsom dîm sefydledig a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal i rannu gwybodaeth, a bod staff yn cael arfarniadau rheolaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y polisiâu a'r gweithdrefnau yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Roedd cofnodion y staff a chofnodion cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn gyflawn ac yn cael eu rheoli'n dda
- Roedd y practis yn gwneud defnydd effeithiol o gymorth gan ei grŵp corfforaethol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*"Staff tosturiol, cyfeillgar a gwybodus."*

*"Gwasanaeth da iawn."*

#### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

##### Hybu Iechyd

Roedd amrywiaeth o daflenni a phosteri yn cael eu harddangos er mwyn darparu gwybodaeth a hybu iechyd y geg, gan gynnwys cymorth ar roi'r gorau i smygu.

Nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos am fanteision a risgiau cysylltiadau pelydr-X deintyddol. Codwyd hyn gyda'r staff yn ystod yr arolygiad a chafodd ei ddatrys ar unwaith, gyda phoster yn cael ei arddangos.

Roedd arwyddion dim smygu yn cael eu harddangos yn glir, a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd da yn y geg.

##### Gofal Urddasol a Pharchus

Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau pan oeddent yn cael eu defnyddio ac nad oedd modd gweld drwy'r ffenestri allanol, er mwyn hyrwyddo preifatrwydd y cleifion. Nodwyd gennym fod ffenestr fach yn nrws Deintyddfa 2 ac y byddai cleifion a oedd yn mynd i'r toiled yn gallu gweld i mewn i'r ddeintyddfa. Codwyd hyn gyda rheolwr y practis yn ystod yr arolygiad a chafodd ei ddatrys drwy orchuddio'r ffenestr, er mwyn sicrhau preifatrwydd y cleifion.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.



Oherwydd maint a chynllun y dderbynfa a'r ardal aros, roedd yn anodd cynnal preifatrwydd y cleifion. Gwelsom aelodau o'r staff yn bod yn ystyriol wrth drafod manylion personol a nodwyd bod sgriniau preifatrwydd effeithiol yn cael eu defnyddio ar fonitorau ar ddesg y dderbynfa. Dywedodd y staff wrthym y byddai cleifion sydd am gael sgwrs gyfrinachol yn cael mynd i ddeintyddfa wag pe byddai hynny'n bosibl.

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried a ellir cymryd camau pellach i wella preifatrwydd y cleifion.**

Gwelsom fod y practis yn arddangos copi o god moeseg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Dim ond fersiwn Saesneg o dystysgrif cofrestru AGIC oedd wedi'i harddangos. Nodwyd gennym y dylid ei harddangos yn ddwyieithog, a chafodd y mater ei ddatrys yn ystod yr arolygiad, drwy arddangos fersiwn Gymraeg.

Gwelsom fod prisiau triniaethau ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat yn cael eu harddangos yn glir.

Roedd yr arwyddion y tu allan i'r drws ffrynt yn dangos enwau'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn glir.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf a chadarnhawyd bod gwybodaeth wedi'i nodi er mwyn gallu adnabod y cleifion yn gywir.

Roedd pawb a ymatebodd i'r holiadur yn cytuno eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr bod digon o wybodaeth ar gael i ddeall yr opsiynau triniaeth sydd ar gael a'r risgiau a'r manteision cysylltiedig.

## **Amserol**

### **Gofal Amserol**

Roedd oriau agor y ddeintyddfa wedi'u harddangos yn glir y tu allan i'r practis, yn ogystal â gwybodaeth am sut i gael triniaeth mewn argyfwng.

Nid oedd y practis yn defnyddio system trefnu apwyntiadau ar-lein. Roedd cleifion yn gallu trefnu apwyntiad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, ac roedd negeseuon testun yn cael eu defnyddio i atgoffa'r cleifion am eu hapwyntiadau.

Dywedodd y staff wrthym fod unrhyw achosion o oedi yn cael eu cyfleu dros y ffôn neu'n uniongyrchol o'r deintyddfeydd i'r dderbynfa, ac y byddai'r cleifion yn cael

gwybod ar lafar. Pe byddai unrhyw achosion o oedi hirach, byddai'r staff yn cynnig aildrefnu'r apwyntiad.

Dywedodd y staff wrthym fod apwyntiadau brys ar gael bob dydd ac y gellid cynnig opsiwn 'eistedd ac aros' fel sy'n briodol. Nodwyd gennym fod yr aelod o staff yn y dderbynfa yn nyrs ddeintyddol gymwysedig a'i bod yn defnyddio ei gwybodaeth glinigol i drefnu apwyntiadau'n unol â pha mor gyflym yr oedd angen triniaeth.

## Teg

### Cyfathrebu ac laith

Dywedodd y staff wrthym fod gwasanaethau cyfieithu ar gael iddynt drwy eu Bwrdd Iechyd, pan fo'u hangen i drin cleifion nad ydynt yn siarad Saesneg. Dywedwyd wrthym fod rheolwr y practis yn rhugl yn laith Arwyddion Prydain.

Dim ond yn Saesneg roedd y wybodaeth a oedd wedi'i harddangos yn y practis i'w gweld. Dangosodd y staff wrthym fod fersiynau Cymraeg ar gael ar gais. Gwnaethom eu hysbysu y dylid arddangos gwybodaeth er mwyn sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o hyn, a chafodd poster ei arddangos yn ystod yr arolygiad.

Nid oedd unrhyw staff a oedd yn siarad Cymraeg yn y practis a dywedodd y staff wrthym na fu llawer o alw am ddarpariaeth Gymraeg yn lleol yn y gorffennol. Gwnaethom argymhell y dylai rheolwr y practis gysylltu â'r Bwrdd Iechyd lleol i gael cyngor am sut i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith yn briodol.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ofyn am gyngor a chymorth gan y Bwrdd Iechyd lleol a rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith fel sy'n briodol.**

### Hawliau a Chydraddoldeb

Roedd gan y practis bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith, yn ogystal â pholisi chwythu'r chwiban a llinell gymorth i'r staff fynegi unrhyw bryderon.

Gwelsom fod darpariaeth dda wedi cael ei gwneud ar gyfer cleifion ag anawsterau symudedd a phobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd ramp â chanllaw i'r drws ffrynt ac arwyddion yn dangos bod cloch drws ar gael er mwyn gallu gofyn am gymorth. Roedd dolen sain ar gael yn ardal y dderbynfa, a oedd wedi'i harddangos yn glir. Roedd y practis cyfan ar y llawr daear ac roedd toiled hygyrch ar gael, a oedd yn cynnwys handlenni cydio a larwm er mwyn gofyn am gymorth.

Nodwyd gennym fod y cadeiriau yn yr ystafell aros yn sefydlog ac mewn cyflwr da, ac roedd gan rai ohonynt freichiau er mwyn helpu'r cleifion i'w defnyddio.

Dyweddodd y staff wrthym pe byddai cleifion yn uniaethu fel rhywedd gwahanol, y byddai'r enw a'r rhagenwau o'u dewis wedi'u nodi ar eu cofnod ac yn cael eu defnyddio.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli Risg

Gwelsom fod yr adeilad yn lân ac mewn cyflwr da, ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg. Roedd yr holl gyfleusterau clinigol a'r ardaloedd cyhoeddus ar y llawr gwaelod ac yn addas ar gyfer nifer y cleifion a'r gwasanaethau a ddarperir.

Roedd y toiled rhywedd cymysg yn hawdd ei gyrraedd, yn lân yr olwg ac yn daclus. Roedd yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo ac uned gwaredu cynnyrch mislifol. Yn ogystal, roedd goleuadau awtomatig a bin gwaredu gwastraff digyffwrdd yn cael eu defnyddio er mwyn helpu i atal a rheoli heintiau.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau a oedd yn ymwneud ag atal tân a diogelwch tân a chawsom sicrwydd fod mesurau priodol yn cael eu cymryd. Roedd asesiad risg tân cynhwysfawr ar waith a oedd yn cael ei adolygu bob pum mlynedd ac roedd cynnydd wrth roi unrhyw gamau gweithredu ar waith yn cael ei fonitro gan ddefnyddio system dracio. Gwelsom fod nifer priodol o ddiffoddwyr tân ar gael, eu bod wedi'u gosod ar y waliau a'u bod yn cael eu harchwilio a'u gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd yr allanfeydd tân i'w gweld yn glir, a gwelsom dystiolaeth fod ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal gyda chofnodion o'r rhai a gymerodd ran ac unrhyw broblemau'n cael eu nodi.

Gwelsom fod tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr a phoster lechyd a Diogelwch yn y Gwaith wedi'u harddangos.

Roedd ardal newid fach â loceri storio ar gael i'r staff, ac roedd toiled ar wahân iddynt hefyd.

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod y safle yn addas at y diben, a bod system electronig effeithiol yn cael ei defnyddio er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd y dogfennau yn cynnwys Cynllun Parhad Busnes, Polisi lechyd a Diogelwch ac amrywiaeth o asesiadau risg.

Gwelsom fod gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel, mewn ardal dan glo y tu allan, ac roedd cytundeb rheoli gwastraff ar waith.

Roedd y practis yn defnyddio dau fath o finiau gwastraff clinigol yn y deintyddfeydd. Roedd biniau plastig solet yn cael eu defnyddio ar gyfer eitemau nad oeddent wedi'u dynodi'n offer miniog ond a allai achosi difrod i fagiau plastig.

Nodwyd gennym y gallai lleoliad y biniau yn Neintyddfa 2 a'r ffaith y gellid cael mynediad iddynt beri risg, yn enwedig pe bai plant yn bresennol. Trafodwyd hyn â rheolwr y practis yn ystod yr arolygiad a symudwyd y biniau i leoliad mwy diogel. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn mynd ati i ystyried cynllun y ddeintyddfa hefyd o ran y biniau a'r ardaloedd storio.

### **Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**

Roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau prosesau atal a rheoli heintiau o safon dda. Roedd y rhain yn cynnwys polisiau a gweithdrefnau ac arweinydd rheoli heintiau dynodedig.

Roedd pawb a ymatebodd i'r holiadur yn teimlo bod y lleoliad yn 'lân iawn' neu'n 'eithaf glân' ac roedd pawb a ymatebodd yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn amlwg.

Roedd y gweithdrefnau ar gyfer prosesu, dihalogi a sterileiddio offer deintyddol yn briodol ac roedd y staff yn eu deall yn dda. Roedd gan y practis ystafell ddihalogi ddynodedig, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, a oedd yn nodedig o ystyried y cyfyngiadau o ran lle ar y safle.

Roedd rhywfaint o ddifrod i'r lloriau yn y ddwy ddeintyddfa, oherwydd gwaith diweddar i uwchraddio'r system wresogi. Dywedodd y staff wrthym fod camau eisoes ar waith i osod lloriau newydd yn y ddwy ddeintyddfa.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff lloriau newydd eu gosod yn y ddwy ddeintyddfa mewn modd amserol, er mwyn sicrhau y gellir cynnal prosesau atal a rheoli heintiau a glanhau effeithiol.**

Nodwyd gennym fod y prosesydd digidol ar gyfer pelydrau-X deintyddol wedi'i leoli yn yr ystafell fach sy'n cael ei defnyddio i'r staff newid a storio eu heiddo personol. Gan fod yn rhaid i'r staff ddod i'r ystafell hon yn rheolaidd o'r ardaloedd clinigol, roedd mwy o risg o groes-halogi.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y prosesydd pelydr-X deintyddol ei symud er mwyn lleihau'r risg o groes-halgiad pan fydd y staff yn ei ddefnyddio.**

### **Rheoli Meddyginiaethau**

Nodwyd gennym fod gan y practis drefniadau priodol a diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Roedd hyn yn cynnwys storio meddyginiaethau a phadiau presgripsiwn yn ddiogel, a threfniadau ar gyfer cofnodi unrhyw feddyginiaethau a gaiff eu rhoi yng nghofnodion y cleifion.

Nodwyd gennym fod trefniadau da ar waith i reoli argyfyngau meddygol, a bod cyfarpar a meddyginiaethau priodol a chyfredol ar gael. Gwnaethom hefyd edrych ar sampl o gofnodion hyfforddiant pedwar aelod o staff (allan o 13) a gwelsom dystiolaeth dda fod y staff wedi cael hyfforddiant ar reoli argyfyngau meddygol a Dadebru Cardio-anadlol. Roedd dau swyddog cymorth cyntaf wedi'u penodi.

### **Diogelu Plant ac Oedolion**

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith a'u bod ar gael i bob aelod o'r staff. Dywedodd rheolwr y practis wrthym ei fod yn ymwybodol o weithdrefnau diogelu cenedlaethol Cymru Gyfan. Fodd bynnag, nid oedd y dogfennau yn cyfeirio atynt.

**Rydym yn argymhell y dylid diweddarau'r gweithdrefnau diogelu er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o weithdrefnau diogelu cenedlaethol Cymru Gyfan ac yn gallu cael gafael arnynt.**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddi'r staff a gwelsom fod hyfforddiant priodol a chyfredol ar ddiogelu wedi'i gwblhau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall y gweithdrefnau a bod arweinydd diogelu dynodedig.

### **Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**

Gwelwyd bod y cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben.

Roedd yr holl gyfarpar pelydr-X mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn. Roedd trefniadau ar waith i helpu'r staff i ddefnyddio'r cyfarpar yn ddiogel ac roedd archwiliadau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal o ddelweddau pelydr-X.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddi'r staff a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

## **Effeithiol**

### **Gofal Effeithiol**

Nodwyd gennym fod trefniadau diogel ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin.

Gwelsom dystiolaeth y byddai'r staff yn dod o hyd i ganllawiau a chyngor proffesiynol ac yn eu dilyn lle bo angen. Roedd cymorth ar gael i'r staff gan eu grŵp corfforaethol, gan gynnwys cynghorydd clinigol canolog.

### **Cofnodion Cleifion**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf a gwelsom eu bod o safon dda. Roedd tystiolaeth bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion. Nodwyd gennym fod templedi'n cael eu defnyddio i wella ansawdd a chyflawnder y cofnodion. Nodwyd gennym y gellid gwneud gwelliannau wrth gofnodi cyngor ar roi'r gorau i smygu a dewis iaith y cleifion.

Rydym yn argymhell y dylai cofnodion y cleifion gynnwys nodiadau am unrhyw gyngor a roddir ar roi'r gorau i smygu, a dewis iaith y cleifion.

## **Effeithlon**

### **Effeithlon**

Nodwyd gennym fod gan y practis gymysgedd priodol o rolau staff a phrofiad. Dywedodd y staff wrthym fod rhestr wrth gefn yn cael ei defnyddio i alw cleifion i mewn ac i ddefnyddio unrhyw apwyntiadau a oedd ar gael ar fyr rybudd.

Dywedodd y staff wrthym fod dyddiadur SMART yn cael ei ddefnyddio i fesur perfformiad yn erbyn metrigau GIG Cymru a bod rheolwr y practis yn monitro perfformiad er mwyn sicrhau effeithlonrwydd.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei bod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel. Gwelsom fod grŵp corfforaethol y practis yn rhoi cymorth da.

Gwelsom fod systemau effeithiol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion rheoliadol. Roedd dyddiad wedi'i nodi ar bob un o'r polisiâu a'r gweithdrefnau a welsom ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal, gydag agenda strwythuredig, cofnod presenoldeb a chofnodion. Gwelsom hefyd dystiolaeth fod arfarniadau staff rheolaidd yn cael eu cynnal.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith gyfer yr aelodau hynny o staff.

Esboniodd y staff fod unrhyw ddigwyddiadau a oedd yn ymwneud â diogelwch cleifion yn cael eu cofnodi a'u trosglwyddo i'r tîm rheoliadol yn y grŵp corfforaethol er mwyn i'r tîm hwnnw fwrw golwg drostynt a chyflwyno unrhyw hysbysiadau angenrheidiol.

## Y Gweithlu

### Gweithlu Medrus a Galluog

Gwelsom fod Polisi Recriwtio ar waith er mwyn helpu i recriwtio a sefydlu staff newydd. Roedd hyn yn cynnwys y gwiriadau cyn cyflogi i'w cynnal a rhestr wirio sefydlu.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff a gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau'n cael eu cynnal gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Gwelsom hefyd dystiolaeth o fanylion cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a manylion imiwneiddiadau yn erbyn Hepatitis B.

Roedd y practis yn defnyddio matrices i fonitro cydymffurfiaeth yn erbyn gofynion hyfforddiant gorfodol.



Dywedodd y staff wrthym fod amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant ar gael iddynt drwy eu grŵp corfforaethol, a bod cyngor a hyfforddiant ar gael gan gynghorydd clinigol canolog.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gofyn am adborth gan gleifion gan ddefnyddio dulliau electronig, gan gynnwys anfon dolenni drwy negeseuon testun, a bod adolygiadau yn cael eu monitro'n rheolaidd. Roedd arolygon papur yn cael eu defnyddio ar adegau ar sail ad hoc. Gwnaethom sôn efallai y byddai cleifion yn fwy tebygol o roi adborth pe byddent yn gweld bod y practis yn ymateb i'r adborth hwnnw.

**Rydym yn argymhell y dylai'r practis arddangos poster “dywedoch chi, gwnaethom ni” er mwyn dangos unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i adborth gan gleifion.**

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno yn cael ei harddangos yn glir yn ardal aros y cleifion. Roedd yn cynnwys terfynau amser priodol, yn unol â chanllawiau Gweithio i Wella y GIG. Roedd rhywfaint o'r wybodaeth yn gyffredinol ac nid oedd yn cynnwys manylion cyswllt penodol ar gyfer y practis hwn. Yn ogystal, nid oedd y manylion cyswllt ar gyfer uwchgyfeirio cwyn yn gyflawn. Dywedodd y staff wrthym fod fersiwn fwy cynhwysfawr o'r weithdrefn yn cael ei hanfon at yr unigolyn wrth gydnabod cŵyn.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y weithdrefn gwyno ar gael yn hwylus i'r cleifion ac y caiff ei diweddarau. Dylai'r ddogfen gynnwys manylion cyswllt penodol ar gyfer gwneud cwyn, dylai gyfeirio at LLAIS yn hytrach na'r Cyngorau Iechyd Cymuned (CICau) a dylai gynnwys manylion cyswllt AGIC.**

Dywedodd y staff wrthym fod cwynion ar lafar yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio system ar-lein a bod unrhyw gwynion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u rhannu â'r staff yn ystod cyfarfodydd tîm.

Disgrifiodd y staff eu proses ar gyfer delio â digwyddiadau a chyflwyno hysbysiadau yn ôl yr angen. Roedd polisi ar waith, a oedd yn cyfeirio at y Ddyletswydd Gonestrwydd ac a oedd yn bodloni gofynion y Ddyletswydd. Byddai unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion yn cael eu huwchgyfeirio at y rhiant grŵp, er mwyn iddo arwain y gwaith o adolygu'r digwyddiad a chyflwyno unrhyw hysbysiadau angenrheidiol.

## Gwybodaeth

### Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Roedd system electronig yn cael ei defnyddio i gofnodi a storio cofnodion y cleifion. Roedd y staff yn defnyddio system electronig i ymgymryd â modiwlau hyfforddiant ar-lein.

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil

### Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Dywedodd y staff wrthym fod amrywiaeth o archwiliadau a gweithgareddau yn cael eu cyflawni fel rhan o ofynion y grŵp corfforaethol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal, gan gynnwys rhagnodi, diogelwch ymbelydredd, atgyfeiriadau ac atal a rheoli heintiau.

Rhoddodd y staff enghraifft lle roedd archwiliad o gofnodion y cleifion wedi nodi y gellid gwneud gwelliannau ac y rhoddwyd templedi ychwanegol er mwyn helpu'r clinigwyr.

Dywedodd y staff wrthym fod canfyddiadau'r archwiliadau yn cael eu rhannu â'r grŵp corfforaethol ac yn cael eu hatgyfeirio at y cynghorydd clinigol canolog pe bai angen.

## Dull Systemau Cyfan

### Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Roedd y staff yn y practis yn defnyddio systemau EDEN a COMPASS er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu i weithio gyda phartneriaid allanol, gan gynnwys galwadau ffôn, systemau electronig ac e-bost.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos am fanteision a risgiau cysylltiadau pelydr-X deintyddol.	Nid oedd y cleifion yn cael digon o wybodaeth am fanteision a risgiau eu triniaeth.	Codwyd hyn gyda'r staff yn ystod yr arolygiad.	Cafodd poster priodol ei arddangos.
Nodwyd gennym fod ffenestr fach yn nrws Deintyddfa 2 ac y byddai cleifion a oedd yn mynd i'r toiled yn gallu gweld i mewn i'r ddeintyddfa.	Gallai hyn effeithio ar breifatrwydd ac urddas y cleifion.	Codwyd hyn gyda rheolwr y practis yn ystod yr arolygiad.	Cafodd y ffenestr ei orchuddio.
Dim ond fersiwn Saesneg o dystysgrif cofrestru AGIC oedd wedi'i harddangos.	Mae'n orfodol bod dystysgrif gofrestru AGIC	Codwyd hyn gyda rheolwr y practis yn ystod yr arolygiad.	Cafodd fersiwn Gymraeg ei harddangos.

	yn cael ei harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg.		
Dim ond yn Saesneg roedd y wybodaeth a oedd wedi'i harddangos yn y practis i'w gweld. Dangosodd y staff wrthym fod fersiynau Cymraeg ar gael ar gais.	Ni fyddai cleifion a oedd yn siarad Cymraeg yn ymwybodol bod deunyddiau ar gael yn Gymraeg.	Codwyd hyn gyda rheolwr y practis yn ystod yr arolygiad.	Arddangoswyd poster priodol yn ystod yr arolygiad yn hysbysu'r cleifion bod deunyddiau ar gael yn Gymraeg.
Roedd y practis yn defnyddio dau fath o finiau gwastraff clinigol yn y deintyddfeydd. Roedd biniau plastig solet yn cael eu defnyddio ar gyfer eitemau nad oeddent wedi'u dynodi'n offer miniog ond a allai achosi difrod i fagiau plastig. Nodwyd gennym y gallai lleoliad y biniau yn Neintyddfa 2 a'r ffaith y gellid cael mynediad iddynt beri risg, yn enwedig pe bai plant yn bresennol.	Gallai'r ffaith ei bod hi'n hawdd cael mynediad i'r biniau gwastraff clinigol yn y ddeintyddfa gyfaddawdu diogelwch cleifion.	Codwyd hyn gyda rheolwr y practis yn ystod yr arolygiad.	Symudwyd y biniau i leoliad mwy diogel. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn mynd ati i ystyried cynllun y ddeintyddfa hefyd o ran y biniau a'r ardaloedd storio.

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: My Dentist, Trefyclo

Dyddiad yr arolygiad: 13 Rhagfyr 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: My Dentist, Trefyclo

Dyddiad yr arolygiad: 13 Rhagfyr 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Oherwydd maint a chynllun y dderbynfa a'r ardal aros, roedd yn anodd cynnal preifatrwydd y cleifion.	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried a ellir cymryd camau pellach i wella preifatrwydd y cleifion, megis chwarae cerddoriaeth yn ardal y dderbynfa.	Safon Ansawdd: Yn canolbwyntio ar yr unigolyn	Rydym wedi dechrau defnyddio radio yn ardal y dderbynfa er mwyn rhoi mwy o breifatrwydd i'r cleifion.	Corryne McNeill	wedi'i gwblhau
Nid oedd y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ofyn am gyngor a chymorth gan y Bwrdd Iechyd Lleol a rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith fel sy'n briodol.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2011	Rydym bellach wedi rhoi'r cynnig rhagweithiol ar waith yn y practis ac mae'r tîm cyfan yn ymwybodol ohono.	Corryne McNeill	wedi'i gwblhau



<p>Roedd rhywfaint o ddifrod i'r lloriau yn y ddwy ddeintyddfa, oherwydd gwaith diweddar i uwchraddio'r system wresogi. Roedd hyn yn golygu ei bod hi'n fwy anodd glanhau'n effeithiol.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff lloriau newydd eu gosod yn y ddwy ddeintyddfa mewn modd amserol, er mwyn sicrhau y gellir cynnal prosesau atal a rheoli heintiau a glanhau effeithiol.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22(2)</p>	<p>Codwyd hyn â chontractwyr mewnol a chaiff ei gwblhau.</p>	<p>Corryne McNeill</p>	<p>15.03.2024</p>
<p>Roedd y prosesydd digidol ar gyfer pelydrau-X deintyddol wedi'i leoli mewn ystafell fach iawn sy'n cael ei defnyddio i'r staff newid a storio eu heiddo personol. Gan fod yn rhaid i'r staff ddod i'r ystafell hon yn rheolaidd o'r ardaloedd clinigol, roedd mwy o risg o groes-halogi.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y prosesydd pelydr-X deintyddol ei symud er mwyn lleihau'r risg o groes-halogiad pan fydd y staff yn ei ddefnyddio.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(6)</p>	<p>Cynhaliwyd adolygiad o'r safle, ac nid oes unrhyw le arall y gellid adleoli'r uned. Fodd bynnag, caiff dulliau gwahanu ffisegol ychwanegol eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â'r pryderon.</p>	<p>Corryne McNeill</p>	<p>wedi'i gwblhau</p>
<p>Nid oedd dogfennau diogelu'r practis yn cyfeirio at weithdrefnau</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylid diweddarau'r gweithdrefnau diogelu er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru)</p>	<p>Mae ein tîm cymorth i gleifion wrthi'n eu diweddarau. Ar ôl cwblhau'r</p>	<p>Corryne McNeill</p>	<p>Yn mynd rhagddo</p>

<b>diogelu cenedlaethol Cymru Gyfan.</b>	ymwybodol o weithdrefnau diogelu cenedlaethol Cymru Gyfan ac yn gallu cael gafael arnynt.	2017, Rheoliad 14(1)(a)	broes, cânt eu rhannu â'r tîm.		
<b>Roedd cofnodion y cleifion yn dda ar y cyfan, ond gellid gwneud gwelliannau wrth gofnodi'r cyngor a roddir ar roi'r gorau i smygu a dewis iaith y cleifion.</b>	Rydym yn argymhell y dylai cofnodion y cleifion gynnwys nodiadau am unrhyw gyngor a roddir ar roi'r gorau i smygu, a dewis iaith y cleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 20(1)	Mae hyn bellach wedi'i roi ar waith gyda phob aelod o'r tîm ac mae pawb yn ymwybodol o'r gofynion.	Corryne McNeill	wedi'i gwblhau
<b>Efallai y byddai cleifion yn fwy tebygol o roi adborth pe byddent yn gweld bod y practis yn ymateb i'r adborth hwnnw.</b>	Rydym yn argymhell y dylai'r practis arddangos poster "dywedoch chi, gwnaethom ni" er mwyn dangos unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i adborth gan gleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16(2)(c)	Mae hyn wedi cael ei roi ar waith a chaiff ei drafod yng nghyfarfodydd y practis yn y dyfodol.	Corryne McNeill	wedi'i gwblhau
<b>Nid oedd gweithdrefn gwyno'r practis yn cynnwys yr holl fanylion gofynnol ac nid oedd rhannau o'r wybodaeth yn gyfredol.</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y weithdrefn gwyno ar gael yn hwylus i'r cleifion ac y caiff ei diweddarau. Dylai'r ddogfen gynnwys manylion cyswllt	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 21(1) a (4)	Mae'r weithdrefn gwyno wedi cael ei diweddarau ac mae bellach yn cael ei harddangos	Corryne McNeill	wedi'i gwblhau

penodol ar gyfer gwneud  
cwyn, dylai gyfeirio at LLAIS  
yn hytrach na'r Cyngorau  
Iechyd Cymuned (CICau) a  
dylai gynnwys manylion  
cyswllt AGIC.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Corryne McNeill**

**Teitl swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 28 Chwefror 2024**